Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 329

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Strydoedd Mwy Diogel 5: Arian cyfatebol 24/25**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:**

**Crynodeb Gweithredol:**

Mae Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru'n arwain consortiwm o wasanaethau cam-drin domestig Dyfed-Powys sy'n cyflenwi prosiect Strydoedd Mwy Diogel 5 y Swyddfa Gartref o'r enw *Bystander Plus*. Fe wnaethant gyflenwi prosiect tebyg yn llwyddiannus yn ystod rowndiau blaenorol cyllid Strydoedd Mwy Diogel, gan ddarparu canlyniadau effeithiol ledled cymunedau Dyfed-Powys. Cynhelir cam presennol y prosiect o fis Hydref 2023 tan fis Mawrth 2025.

Mae angen mwy o staff ar gyfer *Bystander Plus* i gyflenwi ymyriadau ataliol ac addysgol i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched. Dechreuwyd recriwtio yn dilyn hysbysiad am ddyfarniad grant y Swyddfa Gartref ym mis Medi 2023.

Ym mis Rhagfyr 2023, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref doriadau ariannol sylweddol i weithgarwch Strydoedd Mwy Diogel 5 ar gyfer y cyfnod 2024/25. Er bod y consortiwm wedi nodi'r holl arbedion cost posibl, mae dal diffyg cyllid o £30,000, sy'n rhoi'r prosiect cyfan mewn perygl sylweddol. Mae'r gwaith yr ymgymerir ag ef gan y prosiect yn hollbwysig i ddiben cyllid Strydoedd Mwy Diogel ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu a blaenoriaethau craidd y Prif Gwnstabl.

Gwnaed cais i ddarparu arian cyfatebol i gefnogi'r prosiect hwn. Mae'r gweithgarwch prosiect yn cyd-fynd â blaenoriaethau 1 a 2 y Cynllun Heddlu a Throseddu.

**Argymhelliad:**
Argymhellir bod y Comisiynydd yn darparu arian cyfatebol o £30,000 o gyllideb cronfeydd wrth gefn y Comisiynydd er mwyn sicrhau parhad y rhaglen *Bystander Plus* yn 2024/25.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 04/02/24**